# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd dros fideo gynadledda ddydd Iau, 4 Chwefror 2021 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Jones, Barry Mellor a Melvyn Mile

## HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Tîm – Tîm Lleoedd (TD), Swyddog Trwyddedu (NJ), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cyfreithiwr dan hyfforddiant (EW) a Gweinyddwyr Pwyllgor (KEJ a RTJ)

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Leol hefyd yn bresennol o bell er mwyn arsylwi’r cyfarfod.

## PWYNT SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a’r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i’r cyhoedd.

## CROESO

Croesawodd y Cynghorydd Brian Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, bawb a oedd yn bresennol a chyflwyno pobl. Tynnodd sylw hefyd at weithdrefnau sydd i’w dilyn yn y gwrandawiad, a oedd eisoes wedi’u dosbarthu i bawb.

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Brian Jones yn ffurfiol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy’n rhagfarnu.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGU TRWYDDED EIDDO - THE ROYAL VICTORIA, SANDY LANE, PRESTATYN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â’r canlynol –

(i) cais a dderbyniwyd gan Mr. M. O’Grady, Ysgrifennydd Cwmni Victoria Apartments (Prestatyn) Ltd i Adolygu Trwydded Eiddo sydd gan Admiral Taverns Limited mewn perthynas â The Royal Victoria, Sandy Lane, Prestatyn

(mae copïau o’r Drwydded Eiddo bresennol a’r atodlen weithredu bresennol wedi eu hatodi yn Atodiad A yr adroddiad);

(ii) cyflwynwyd y cais yn wreiddiol yn Chwefror 2020 ac oherwydd y pandemig gohiriwyd wedi hynny yr Is-bwyllgor Trwyddedu oedd i fod i wrando ar y cais ym Mawrth 2020;

(iii) yr achos am adolygiad yn ymwneud ag amcanion trwyddedu atal trosedd ac anrhefn ac atal niwsans cyhoeddus ac, yn benodol, fel y nodir ar y cais, bod problemau sŵn yn yr eiddo ac o’i amgylch yn effeithio ar eiddo preswyl, ynghyd ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (mae manylion llawn y Cais am Adolygiad wedi eu hatodi yn Atodiad B yr adroddiad);

(iv) Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau (Atodiad C yr adroddiad) wrth ymateb i’r hysbysiad cyhoeddus angenrheidiol o’r Cais am Adolygiad ac ar ôl edrych ar systemau’r Heddlu nid oeddent wedi codi unrhyw bryderon ynghylch cyfrifoldebau’r lleoliad dan yr amcanion trwyddedu yn ymwneud ag atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus;

(v) sylwadau a dderbyniwyd gan Adran Rheoli Llygredd y Cyngor (Atodiad D yr adroddiad) yn cadarnhau rhywfaint o gysylltiad ers 2017 ynghylch cwynion sŵn yn gysylltiedig â’r eiddo ond nid oedd y cwynion hynny wedi eu profi felly ni chymerwyd camau gweithredu pellach;

(vi) derbyniwyd naw datganiad gan lesddeiliaid/preswylwyr Victoria Apartments (Atodiad E yr adroddiad) i gefnogi’r Cais am Adolygiad sy’n cyfeirio at aflonyddwch sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;

(vii) derbyniwyd sylwadau hefyd gan Ddeilydd y Drwydded Eiddo sef Admiral Taverns Limited (Atodiad F yr adroddiad) a’r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig (Adroddiad G yr adroddiad) wrth ymateb i’r Cais am Adolygiad a materion a oedd yn codi o hynny;

(viii) cyfryngu rhwng partïon wedi arwain at gyflwyno cynigion gan yr Ymgeisydd i fynd i’r afael â’r pryderon, sef cwtogi oriau agor a gosod mesurau ynysu rhag sŵn (Atodiad H yr adroddiad). Ymatebodd Deilydd y Drwydded Eiddo na allai gytuno â'r cynnig i gwtogi'r oriau gan na fyddai hynny'n gwneud y safle’n hyfyw ond cytunodd y byddai’n cwrdd â swyddogion ar y safle i ystyried mesurau lleihau sŵn (Atodiad I yr adroddiad). Serch hynny, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, nid oes cyfarfod wedi ei gynnal ar y safle hyd yma;

(ix) yr angen i ystyried y Cais am Adolygiad gan gyfeirio at Ddatganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor; Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; deddfwriaeth berthnasol arall a’r sylwadau a dderbyniwyd, ac

(x) yr opsiynau sydd ar gael i’r Is-bwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu’r adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr Ymgeisydd, Mr. M. O’Grady, Ysgrifennydd Cwmni Victoria Apartments (Prestatyn) Ltd (VAPL) yn bresennol i gefnogi’r Cais am Adolygiad.

Wrth gyflwyno’i achos, cyfeiriodd Mr. O’Grady at yr achos dros gael adolygiad, fel y manylir amdano yn y cais a gefnogir gan naw datganiad gan dystion (Atodiad E yr adroddiad). Rhoddodd ychydig o gefndir y gwahanol bartïon sy’n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys Admiral Taverns fel rhydd-ddeiliad yr adeilad cyfan, ac esboniodd fod yr hen westy wedi cael ei droi'n ddau ar hugain o unedau preswyl a osodir ar les hir, a bod Admiral Taverns wedi cadw un fflat, ynghyd â thafarn y Victoria. Tan 2017 roedd dau o gyfarwyddwyr VAPL hefyd yn aelodau o fwrdd Admiral Taverns ond, oherwydd gwrthdaro buddiannau, nid ydynt bellach ar y bwrdd ac mae dau lesddeiliad hir wedi cymryd eu lle - roedd un ohonynt, Ms. D. Harrison, yn bresennol yn y gwrandawiad.

Ymatebodd Mr. O'Grady i’r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Admiral Taverns (Atodiad F yr adroddiad) fel a ganlyn -

- cyfeiriwyd at gwynion na chafodd eu rhoi gerbron y Cyngor ond yn y datganiad a roddwyd gan Mrs. E. Davies (Atodiad E yr adroddiad, tudalennau 42 - 45) cyfeiriodd at gwynion parhaus uniongyrchol rhyngddi hi a'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig dros y pum mlynedd ddiwethaf.
- cyfeiriwyd at ddarparu datganiadau generig, gan awgrymu eu bod wedi cael eu paratoi gan yr un person.
  Cadarnhaodd Mr. O’Grady ei fod wedi paratoi datganiad tyst generig ac fe’i rhoddodd i Mrs. E. Davies er mwyn cofnodi tystiolaeth ac nid oedd unrhyw beth o’i le ar hynny.
- o ran y diffyg tystiolaeth i gadarnhau niwsans sŵn yn nhermau logiau sŵn/camau gweithredu gan y cyngor, dywedwyd bod llesddeiliaid/tenantiaid wedi darparu tystiolaeth yn agored ac na chafodd ei herio’n uniongyrchol
- wrth sôn am y galw am fwy o ddeialog wrth symud ymlaen, nid oedd Admiral Taverns wedi gwneud unrhyw ymdrech i ystyried anghenion tenantiaid
- deallwyd bod yr eiddo'n gweithredu'r oriau agor hwyraf yn y dref uwchben un o’r adeiladau mwyaf poblog, ac roedd angen sicrhau bod lefel y sŵn yn gymesur â hynny.

I gloi, cyfeiriodd Mr. O'Grady at y cynigion a roddodd fel rhan o'r broses gyfryngu (Atodiad H yr adroddiad) i’r oriau agor gyd-fynd â thafarndai eraill yn y dref, sef tan 11.00pm o ddydd Sul i ddydd Iau, a hanner nos ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn. Ymatebodd Admiral Taverns na allent gytuno gyda chwtogi’r oriau i 11.00pm bob dydd gan gynnwys penwythnosau (dylid nodi bod y cynnig yn nodi hanner nos ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn) gan na fyddai hynny’n fodel busnes hyfyw. Dadleuodd Mr. O’Grady y dangosai hyn fod yr eiddo’n brysurach yn hwyrach yn y nos. O ran cynigion i osod mesurau ynysu rhag sŵn, er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd y byddai hyn yn cael ei wneud, nid yw Admiral Taverns wedi rhoi unrhyw fesurau ar waith i leihau sŵn hyd yma.

**CYFLWYNIAD ADRAN RHEOLI LLYGREDD Y CYNGOR**

Siaradodd Ms. M. White, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, am y sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Adran Rheoli Llygredd y Cyngor (Atodiad D y cais) gan nodi eu bod wedi derbyn chwech o gwynion am sŵn rhwng 2017 a 2019. Ar bob achlysur, gofynnwyd i'r achwynydd gyflwyno log sŵn ond dim ond un a ddychwelwyd a oedd yn nodi gwybodaeth generig fod sŵn yn broblem ar nos Wener, nos Sadwrn a nos Sul heb nodi dyddiadau penodol. Cynigiwyd offer recordio i un tenant, ond daeth i'r amlwg mai hi oedd Landlord yr eiddo ac esboniwyd mai'r tenant a fyddai angen yr offer recordio at ddibenion monitro sŵn ac ni dderbyniwyd adroddiadau pellach. Felly ni allai'r Adran Rheoli Llygredd gadarnhau'r honiadau am niwsans sŵn.

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Roedd Mr. A. Haggas, Rheolwr Trwyddedu o Heddlu Gogledd Cymru wedi ymuno â'r cyfarfod ond ni ellid sefydlu deialog a chymerwyd fod ganddo broblemau technegol. O ganlyniad, byddai sylwadau ysgrifenedig Heddlu Gogledd Cymru (Atodiad C yr adroddiad) yn cael eu hystyried yn ystod trafodaethau'r Is-bwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i Mr. O'Grady (Ymgeisydd) a ymatebodd fel a ganlyn -

- roedd wedi drafftio templed ar gyfer datganiad tyst er mwyn ei gwneud yn haws i gasglu tystiolaeth ac roedd Mrs. E. Davies wedi cynorthwyo i gasglu'r dystiolaeth honno gan lesddeiliaid/preswylwyr; roedd hyn yn esbonio'r ffurflen generig a'r iaith gyson a ddefnyddiwyd ac roedd pob ffurflen wedi ei harwyddo fel datganiad gwir.
- cyflwynwyd naw datganiad i gefnogi'r Cais am Adolygiad; ef ei hun oedd yn berchen ar un o'r fflatiau ond nid oedd yn byw yno ac nid oedd wedi rhoi datganiad tyst. Ar ôl cerdded o amgylch yr adeilad, dywedodd nad oedd lefel y sŵn yr hyn y byddech yn ei ddisgwyl ei glywed y tu mewn i adeilad preswyl.
- esboniodd mai llesddeiliaid a roddodd gyfran helaeth o'r dystiolaeth, a chan ystyried bod y fflatiau'n cael eu rhentu ar denantiaethau byr yn bennaf, ni fyddai'r tenantiaid hynny'n elwa rhyw lawer drwy gyfrannu at waith yr adolygiad
- wrth gyfeirio at y ffaith na sonnir am y sŵn mewn adolygiadau am yr adeilad ar Airbnb, esboniodd mai dyma sut roedd ei fflat ei hun yn cael ei osod ac roedd mewn safle o fewn yr adeilad lle na chlywir sŵn; esboniodd fod lefel y sŵn a glywir yn dibynnu ar leoliad y fflat yn yr adeilad, a'r rhai sydd union uwchben y dafarn sy'n dioddef waethaf, ac ar benwythnosau'n bennaf. Mae tua 3/4 o'r fflatiau'n cael eu rhentu am gyfnodau byr drwy Airbnb
- o ran gwrthod cynnig y Cyngor i gael offer monitro sŵn oherwydd yr amseru, ailadroddwyd bod yr offer monitro wedi ei gynnig ym mis Ionawr ac roedd yr achwynydd wedi esbonio ei bod yn dawel ar y pryd a bod y problemau sŵn rhwng Mawrth a Rhagfyr fel arfer.
- cadarnhaodd ei fod wedi ymweld â'r adeilad sawl tro i oruchwylio gwaith adnewyddu a wnaed ar y tu allan - roedd yn ymweld â'r adeilad tua phedair gwaith y flwyddyn. Cyfeiriodd at lawer o'r rhai â chysylltiad a oedd yn bresennol ac sydd yn yr adeilad yn rheolaidd, ac felly mewn sefyllfa well i sôn am y problemau sy'n codi

- nododd amseroedd agor hwyr rhai o’r eiddo trwyddedig eraill ym Mhrestatyn y soniwyd amdanynt wrth ymateb i'r galw i gwtogi oriau agor yr adeilad er mwyn cyd-fynd â thafarndai eraill yn yr ardal.

Gofynnodd y Cadeirydd i Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ymhelaethu ar ei datganiad o ran dyddiadau ac amseroedd y cwynion a dderbyniwyd a dywedodd -

- fod cwynion wedi eu derbyn ym Mehefin 2017, Ebrill 2018, Mehefin 2018, Hydref 2018 a Rhagfyr 2019 – ar bob achlysur, anfonwyd taflenni logio niwsans sŵn at yr achwynydd ond ni chawsant eu dychwelyd
- yn Chwefror 2019, dychwelwyd taflenni logio sŵn yn cofnodi na allai’r achwynydd gysgu tan ar ôl 2.00am ar nos Wener, nos Sadwrn a nos Sul ac roedd yn digwydd yn rheolaidd bob wythnos gan effeithio, i raddau amrywiol, ar 5/6 fflat yn yr adeilad.
  Ni roddwyd dyddiadau nac amseroedd penodol am y niwsans sŵn. Cofnododd hefyd fod y Landlord yn hawdd iawn siarad â hi ac yn cydymdeimlo pan roedd yn cael ei hatgoffa am y sŵn ond, ymhen amser, byddai’r lefelau sŵn yn cynyddu unwaith eto. Cynigiwyd offer monitro sŵn ond fe’i gwrthodwyd.
- yn dilyn cwyn ym Mai 2019 anfonwyd taflenni logio niwsans sŵn a ‘*Noise App*’ at yr achwynydd ond ni chafwyd ymateb.

**CYFLWYNIAD Y RHAI Â CHYSYLLTIAD**

Derbyniwyd naw o sylwadau ysgrifenedig (Atodiad E yr adroddiad) gan lesddeiliaid/tenantiaid Victoria Apartments i gefnogi’r Cais am Adolygiad ac roedd pob un yn ymwneud ag aflonyddwch sŵn a rhai yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y rhai â chysylltiad a oedd yn bresennol yn y gwrandawiad yn cynnwys (1) Mrs. E. Davies, (2) Mr. G. Jones, a (3) Mr. J. Morris a Ms. A. Hollrah a rhoddwyd cyfle i bob un siarad yn y gwrandawiad i gefnogi eu sylwadau ysgrifenedig.

**Mrs. E. Davies** – dywedodd ei bod wedi gwneud sawl cwyn i'r Adran Rheoli Llygredd ac roedd yn dyst i niwsans sŵn o fis Mawrth tan ddathliadau'r Flwyddyn Newydd, bob penwythnos, ac roedd hyn yn digwydd ers blynyddoedd. Yn wreiddiol, cysylltodd â’r Tîm Trwyddedu i drafod y mater ond yn ddiweddarach cyfarfu â’r Landlord a ddywedodd wrthi ddelio’n uniongyrchol â hi. Wedi hynny, bu yn y dafarn yn rheolaidd i ofyn iddynt droi'r gerddoriaeth i lawr. Er bod y Landlord wedi bod yn barod iawn i drafod, nid oedd hi ar y safle bob amser, ac yn anochel byddai lefel y sŵn yn cynyddu dros amser. Roeddent wedi trafod ffyrdd i ynysu rhag sŵn ond dywedodd y Landlord na allai eu fforddio. Mae’r Landlord wedi gadael ers hynny ac roedd pryderon ynghylch y ffordd byddai’r dafarn yn cael ei rhedeg o dan y rheolwyr newydd, gan na fyddent efallai mor barod i drafod ac y byddent eisiau defnyddio cymaint o oriau trwyddedu â phosibl.

Esboniodd Mrs. Davies fod ei fflat yn cael ei osod am gyfnodau byr ac felly nad oedd wedi gallu defnyddio'r offer monitro sŵn a ddarparwyd; nid oedd ei chymdoges yn aros yn yr adeilad dros y penwythnos bellach, oherwydd y sŵn, felly ni allai hithau fonitro’r sŵn chwaith, ac ni chafodd lawer o lwyddiant gyda'r *Noise App*. Defnyddiai Airbnb i osod y fflat am gyfnodau byr gan nad oedd y fflat yn addas ar gyfer tenant llawn amser oherwydd y sŵn ac mae’n ei osod yn ystod yr

wythnos yn unig neu mae'n sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o'r sŵn ar y penwythnos ac yn cynnig gostyngiad yn y pris i wneud iawn am hynny. Roedd un fflat wedi bod yn wag am fisoedd ac roedd dwy set o denantiaid yn gadael oherwydd y sŵn.

Gan ymateb i alwadau gan Admiral Taverns i gyfryngu, roedd wedi ceisio trafod â'r Landlord ers blynyddoedd ond ni chafodd lwyddiant. Derbyniwyd bod y dafarn yn cydymffurfio a'i horiau trwyddedu ond ni chysylltwyd â'r trigolion ynghylch newid y drwydded i 3.00am a oedd yn rhy hwyr o lawer i'w weithredu mewn adeilad preswyl. Roedd eiddo trwyddedig eraill ym Mhrestatyn sydd â thrwyddedau hwyr wedi'u lleoli yng nghanol y dref ac roedd ganddynt fesurau priodol yn eu lle i ynysu rhag sŵn. O ran yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a welwyd, roedd rhai preswylwyr wedi galw'r Heddlu yn y gorffennol ond ni wnaethant fawr ddim amdano ac felly roedd y preswylwyr bellach yn amharod i adrodd yn ei gylch. Wrth gloi, gofynnodd am i'r oriau trwyddedu gael eu cwtogi ac i fesurau ynysu rhag sŵn gael eu gosod er mwyn mynd i'r afael â'r broblem sŵn.

**Ms. D. Harrison** – dywedodd na allai gysgu yn ei fflat oherwydd curiadau'r gerddoriaeth a ddeuai o'r dafarn ac roedd wedi gosod ffenestri gwell er mwyn ymdrin â'r niwsans sŵn. Pwysleisiodd y niwsans a welwyd pan fyddai cwsmeriaid yn ymgynnull y tu allan, pobl yn ysmygu o flaen yr adeilad a dal tacsi ayb. Ychwanegodd nad yw eiddo trwyddedig eraill ym Mhrestatyn yn masnachu tan yr oriau mân, beth bynnag yw'r oriau a ganiateir ar eu cyfer. [Nid oedd Ms. Harrison wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn y gwrandawiad.]

**Mr. G. Jones** – nododd ei fod wedi byw yn yr adeilad tan 2011 a'i fod wedi cwyno wrth y Cyngor bryd hynny am ddirgryniadau sŵn a fyddai'n ei gadw ar effro yn y nos. Byddai ei denant yn cwyno'n aml am sŵn a dirgryniadau a fyddai'n ei gadw ar effro yn hwyr iawn yn y nos, yn ogystal â phobl yn ysmygu'r tu allan ac yn achosi helynt, a byddai hyn yn peri gofid iddo.

**Mr. J. Morris a Ms. A. Hollrah –** nid yw'r gerddoriaeth/sŵn yn effeithio'n uniongyrchol ar eu fflat ond gellid clywed cerddoriaeth yn y pellter ar brydiau a byddai'r adeilad cyfan yn crynu oherwydd effaith y gerddoriaeth. Ni ellir gwadu'r ffaith fod niwsans sŵn yn broblem i bobl mewn fflatiau eraill sy'n agosach at y dafarn gan fod preswylwyr yn cwyno am y sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roeddent yn credu bod oriau trwyddedu tan 3.00am yn rhy hwyr o lawer mewn lleoliad preswyl a chredent fod yr achos a gyflwynir i gefnogi'r Cais am Adolygiad yn cynrychioli'r sefyllfa'n gywir ac roeddent yn cydymdeimlo â'r preswylwyr y mae hyn yn effeithio arnynt. O ran natur generig y datganiadau, rhoddwyd sicrwydd nad oedd unrhyw fath o gydgynllwynio.

**SYLWADAU DEILYDD Y DRWYDDED EIDDO**

Roedd Mr. D. Kelly, Arweinydd Tîm Trwyddedu Admiral Taverns yn bresennol fel Deilydd y Drwydded Eiddo (Admiral Taverns) i gefnogi adolygiad y drwydded.

Cadarnhaodd Mr. Kelly fod y Landlord/Goruchwylydd Eiddo Dynodedig ar fin gadael ac nad oedd wedi derbyn cadarnhad fod tenant newydd wedi cael ei recriwtio. Os daw tenant newydd a bod y dafarn yn ailagor ar ôl y cyfnod clo,

byddai’r pwyslais ar reoli’r eiddo’n briodol er mwyn mynd i’r afael â’r pryderon a godwyd. Rhoddwyd sicrwydd y byddai Admiral Taverns yn ymdrin ag unrhyw gwynion a dderbynnir mewn modd rhagweithiol ac y byddent yn cynnal trafodaethau gyda’r Cyngor a’r Heddlu; oherwydd y diffyg tystiolaeth yn yr achos hwn a’r ffaith nad aeth y Cyngor â’r cwynion sŵn ymhellach, roedd yn anodd gweld faint o broblem oedd hyn a phenderfynu ar y camau gweithredu gorau. Yn sgil y cyfeiriadau a wnaed at sŵn yn y datganiadau ysgrifenedig, teimlai Mr. Kelly y byddai mesurau i ynysu rhag sŵn yn addas a chytunwyd eisoes i gyfarfod gyda swyddogion Rheoli Llygredd ar y safle pan fyddai cyfyngiadau Covid yn caniatáu hynny. Ni chredir bod y cynnig i gwtogi oriau agor yn briodol yn yr achos hwn a chredir y byddai’n well ymdrin â’r materion a godwyd drwy roi mesurau rheoli eraill ar waith, er enghraifft rheolau'r ardd gwrw, ysmygwyr ayb.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe ddywedodd Mr. Kelly -

- nad oedd yn sicr pryd gwnaed y cais i newid yr oriau i 3.00am ond roedd y drefn yn nodi bod angen arddangos rhybudd o'r newid yn yr eiddo ynghyd â hysbyseb yn y papur newydd
- roedd yn cydnabod bod problemau sŵn yn gysylltiedig â’r eiddo yn hwyrach yn y nos a’i fod wedi trafod cwynion sŵn gyda’r Cyngor
- nid oes unrhyw dystiolaeth mai’r dafarn sy'n gyfrifol am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol y cyfeiriwyd ato ac roedd elfen o gymryd hynny'n ganiataol; roedd yn cytuno y dylid rhoi gwybod i’r Heddlu yn uniongyrchol am ymddygiad gwrthgymdeithasol, beth bynnag fo’r amser.
- cadarnhaodd ei fod yn fodlon trafod gyda’r Cyngor sut y gellid gosod mesurau lleihau sŵn, megis ynysu rhag sŵn, er mwyn cyfyngu arno, ynghyd â sicrhau bod y tenant newydd yn ymgorffori mesurau eraill i reoli sŵn a’i fod yn rheoli'r ardd gwrw, ysmygwyr ac ati yn well.
- cytunai'n gryf y dylid cyfryngu ond nid oedd yn cefnogi y dylid cwtogi’r oriau ac ni chredai y byddai'n helpu'r sefyllfa, yn lle hynny roedd yn ffafrio rheoli'r eiddo'n well er mwyn ymdrin â phryderon ac ychwanegodd na chafwyd unrhyw broblemau gyda’r oriau trwyddedu a godwyd gan yr Heddlu.

Caniataodd y Cadeirydd i Mrs. Davies ymateb i nifer o bwyntiau a godwyd gan Mr. Kelly. Wrth gyfeirio at y galw i gyfryngu, roedd wedi ceisio cyfryngu gydag Admiral Taverns, Landlord y dafarn ac wedi cysylltu â’r Cyngor ers 2016. Er bod pawb yn ymddangos fel petaent yn derbyn ei sylwadau, parhau wnaeth y problemau. Gwnaed ymdrech arall i gyfryngu yn dilyn y Cais am Adolygiad, ac er y derbyniwyd ymatebion cadarnhaol o ran mesurau ynysu rhag sŵn, credai fod cwtogi’r oriau’n hanfodol i fynd i’r afael â’r problemau. Byddai preswylwyr wedi rhoi sylwadau am y cais i newid yr amser i 3.00am pe baent yn ymwybodol ohono.

Gofynnodd y Cadeirydd i Mrs. Davies am eglurder ynghylch manylion penodol am y niwsans sŵn a brofwyd, gan gynnwys amseroedd a dyddiadau. Atebodd Mrs. Davies bod -

- cerddoriaeth swnllyd i’w glywed gan y DJ a’r karaoke bob penwythnos, gan gychwyn ym mis Mawrth, a byddai’n tawelu ar ôl y Flwyddyn Newydd pan fyddai'r parciau carafanio yn cau.

- ar un achlysur, gan fod y gerddoriaeth mor uchel am 8.00pm ar nos Sul, gofynnodd iddo gael ei droi i lawr
- roedd y niwsans sŵn a gafodd yn ei fflat yn cynnwys cerddoriaeth a lleisiau
- gwnaeth y Landlord gau’r ardd gwrw o’i gwirfodd am 8.30pm oherwydd cwynion, serch hynny, byddai pobl wedyn yn tueddu i ymgynnull o flaen yr adeilad
- byddai pobl yn ymgynnull y tu allan i'r adeilad i ysmygu a siarad
- arferai llesddeiliaid ffonio’r Heddlu ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ond roeddent wedi rhoi’r gorau iddi dros y blynyddoedd diwethaf gan nad oedd unrhyw beth yn cael ei wneud yn ei gylch.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Mr. O’Grady a ddywedodd na chafwyd tystiolaeth i herio’r honiad na ymgynghorwyd â'r llesddeiliaid/tenantiaid ar y newid gwreiddiol i’r oriau tan 3.00am ac er bod Admiral Taverns wedi cytuno y byddent yn ystyried mesurau ynysu rhag sŵn, nid oeddent wedi gwneud unrhyw beth yn ei gylch dros y deuddeg mis diwethaf. Atebodd Mr. Kelly ei fod yn bresennol i drafod problemau sŵn, y drwydded eiddo a chwynion. Esboniodd fod amseriad y Cais am Adolygiad, yn syth cyn y cyfnod clo, ac effaith Covid-19 wedi atal pethau rhag symud yn eu blaenau ond roedd mewn trafodaethau gyda Rheoli Llygredd a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu ar y safle pan fydd hynny’n bosibl a chroesawodd bresenoldeb y rhai eraill â chysylltiad i’r cyfarfod hwnnw, gan nodi mai cyfryngu yw’r ffordd orau ymlaen.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder gan y rhai eraill â chysylltiad a oedd yn bresennol, am eu profiadau penodol o ran niwsans sŵn. Dywedodd Mr. G. Jones ei fod wedi teimlo dirgryniadau sŵn pan oedd ef yn byw yn yr adeilad, ac roedd yn eu disgrifio fel 'dyrnu bas - bwm, bwm, bwm'. Cysylltodd â’r Cyngor yn 2011 a chafodd offer recordio ganddynt ond nid oedd yn codi’r dirgryniadau. Dywedodd ei denant wrtho bod y niwsans yn parhau tan yn hwyr ac roedd yn ei chael yn anodd cysgu o’r herwydd ond ni roddwyd amseroedd penodol. Disgrifiodd Ms. A. Hollrah guriad gerddoriaeth fas a dirgryniadau’n dod o’r dafarn a dreiddiai drwy’r adeilad a pharhau tan 1.00am, a’r prif ddyddiau oedd dydd Iau, dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul. Er nad oedd y dirgryniadau'n effeithio arni bob amser gan mai hi oedd y pellaf oddi wrth y dafarn, gwyddai ei fod yn effeithio'n wael ar rai eraill a oedd yn agosach at y dafarn.

Gofynnodd y Cadeirydd un cwestiwn olaf i Mr. Kelly ynglŷn â mesurau i ymdrin â chwsmeriaid yn defnyddio’r ardd gwrw neu’n ymgynnull y tu allan i’r eiddo. Atebodd Mr. Kelly y byddai’r tenant newydd yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau rheoli cadarn yn eu lle ond gellid cymryd sawl cam, er enghraifft cau rhai ardaloedd penodol, sicrhau nad yw pobl yn mynd â diodydd y tu allan, arwyddion, a chyfyngu ar y nifer sy'n defnyddio’r ardd gwrw. Awgrymodd y byddai cau’r ardd gwrw am 11.00pm yn rhesymol a phwysleisiodd ddyletswydd gofal y tenant i gwsmeriaid a phreswylwyr.

[Ar y pwynt hwn (11.55am) ac wrth ymateb i gais gan Mr. O'Grady, caniataodd y Cadeirydd egwyl o ddeg munud. Ar ôl ailddechrau'r cyfarfod, estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. O'Grady roi datganiad terfynol.]

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Yn ei ddatganiad terfynol, amlygodd Mr. O'Grady y materion a ganlyn -

- cyfeiriodd at amharodrwydd y preswylwyr i gysylltu â'r Heddlu ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol i esbonio pam nad oedd yr Heddlu wedi codi sylwadau anffafriol.
- wrth gyfeirio at y ffaith nad oedd Rheoli Llygredd yn gallu cadarnhau niwsans sŵn, awgrymodd y gallai swyddog fod wedi ymweld â'r adeilad i glywed y sŵn ei hun ac roedd y datganiadau niferus gan dystion i gadarnhau'r sŵn a'r datganiadau a roddwyd ar lafar yn y gwrandawiad yn gwneud iawn am y diffyg logiau sŵn
- cafodd Admiral Taverns ddeuddeg mis i edrych ar fesurau ynysu rhag sŵn, a llawer hirach os derbynnir tystiolaeth Mrs. Davies ac eraill, ac ni chadarnhawyd unrhyw gyfeiriadau a wnaed ynghylch eu pryder am les preswylwyr
- er gwaethaf effaith Covid-19, bu cyfleoedd i gael dyfynbrisiau am waith lleihau sŵn; gellid dadlau ei fod yn gyfnod da i wneud y gwaith gan na fyddai'n effeithio ar oriau masnachu arferol
- dymunai Admiral Taverns osod y dafarn gyda'r drwydded hwyraf bosibl a gwrthodai gytuno ar gwtogi oriau ar sail pa mor hyfyw fyddai'r model busnes, gan awgrymu mai'r oriau hwyraf yw'r rhai mwyaf proffidiol.
- nid oedd mesurau rheoli ategol yn ymwneud â rheoli'r ardd gwrw a chwsmeriaid yn ysmygu ayb yn mynd i'r afael â phrif broblem yr amserau agor, sef y brif ffordd i ymdrin â'r broblem
- er bod y drwydded ar fin cael ei hadolygu, nid oedd Admiral Taverns wedi cymryd camau pendant i roi mesurau ynysu rhag sŵn ar waith, sy'n cwestiynu a fyddai unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud yn hyn o beth, yn enwedig am nad oedd tafarnwr yn y dafarn ar hyn o bryd.

I gloi, dywedodd Mr. O'Grady ei fod yn adeilad preswyl gan fod Admiral Taverns wedi ei droi'n adeilad o'r fath, a bod tystiolaeth ysgubol, ddiwrthwynebiad o niwsans difrifol, sy'n un o'r amcanion trwyddedu y dylid ei ystyried. Gan ystyried y ffaith nad yw Admiral Taverns wedi cymryd unrhyw gamau i osod mesurau lleihau sŵn, roedd Mr. O'Grady yn erfyn ar yr Is-bwyllgor i gwtogi oriau agor yr eiddo fel y cynigiwyd yn flaenorol i 11.00pm o nos Sul i nos Iau, a hanner nos ar nos Wener a nos Sadwrn.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (12.15pm), daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben i bawb arall, ac aeth yr Is-bwyllgor Trwyddedu ati i ystyried y cais mewn sesiwn breifat.

**PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD –***

*(a)* *bod yr amodau ar y Drwydded Eiddo sy'n ymwneud â cherddoriaeth yn cael eu haddasu i gwtogi'r oriau a ganiateir ar gyfer Cerddoriaeth Wedi'i Recordio a Cherddoriaeth Fyw yn yr eiddo i hanner nos o ddydd Llun i ddydd Sul, a*

*(b)* *gosod amod bod rhaid i Ddeilydd y Drwydded Eiddo ymgynghori'n weithredol gydag Adrannau Rheoli Llygredd a Thrwyddedu y Cyngor o ran mesurau lleihau sŵn, gyda'r bwriad i greu cynllun gwaith megis mesurau priodol i*

*ynysu rhag sŵn a gwaith ar y ffenestri (yn yr eiddo yn unig), i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Y mesurau a gynllunnir i leihau sŵn i'w cwblhau o fewn chwe mis at foddhad rhesymol yr Adran Drwyddedu mewn ymgynghoriad â Rheoli Llygredd.*

Y rhesymau dros y penderfyniad yw -

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried yr adroddiad yn ofalus ynghyd â'r sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan y partïon amrywiol a'r cyflwyniadau llafar yn ystod y gwrandawiad ac ymatebion i gwestiynau, ac ystyriwyd nifer o ffactorau eraill gan gynnwys, ymhlith eraill, y canllawiau llywodraeth perthnasol yn ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003, Polisi Trwyddedu Sir Ddinbych ac Amcanion Trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003.

Daeth yr Is-bwyllgor Trwyddedu i'r casgliad, wedi ystyried y dystiolaeth, fod yr Amcan Trwyddedu Niwsans Cyhoeddus wedi ei danseilio. Roedd tystiolaeth gref yn ôl pwysau tebygolrwydd gan rai o'r preswylwyr fod problemau sŵn penodol yn dod o'r eiddo, yn ymwneud â chwarae cerddoriaeth yn yr eiddo ar oriau penodol yn hwyr yn y nos a phenderfynodd yr Is-bwyllgor ymdrin â hyn drwy addasu'r amodau ar y Drwydded Eiddo sy'n ymwneud â cherddoriaeth.

Er y nodwyd nad oedd Deilydd y Drwydded Eiddo eisiau cwtogi'r oriau, nododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu fod cynrychiolydd y cwmni'n derbyn fod yna broblem gyda sŵn yn yr eiddo. Penderfynodd yr Is-bwyllgor ei bod yn angenrheidiol, ac yn gymesur i hyrwyddo'r Amcan Trwyddedu Niwsans Cyhoeddus, i gwtogi'r oriau a ganiateir ar gyfer Cerddoriaeth Wedi'i Recordio a Cherddoriaeth Fyw yn yr eiddo i hanner nos o ddydd Llun i ddydd Sul. Bydd amserau pob gweithgaredd Drwyddedadwy arall yn aros yr un fath.

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu hefyd wedi penderfynu gosod amod, y credai a oedd yn angenrheidiol ac yn gymesur i hyrwyddo'r Amcan Trwyddedu Niwsans Cyhoeddus, yn galw ar Ddeilydd y Drwydded Eiddo i ymgynghori'n weithredol gydag Adrannau Rheoli Llygredd a Thrwyddedu y Cyngor ynghylch mesurau i leihau sŵn, gyda'r bwriad i greu cynllun gwaith megis dulliau priodol i ynysu rhag sŵn a gwaith ar y ffenestri (yn yr eiddo yn unig), i'w cymeradwyo gan y Cyngor, er mwyn ymdrin â sŵn a ddaw o'r eiddo. Y mesurau a gynllunnir i leihau sŵn i'w cwblhau o fewn chwe mis ac at foddhad rhesymol yr Adran Drwyddedu mewn ymgynghoriad â Rheoli Llygredd.

I ailadrodd, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Rhai â Chysylltiad mewn perthynas â niwsans sŵn fel yr amlinellwyd yn eu datganiadau ysgrifenedig ac a gyflwynwyd ar lafar yn y gwrandawiad, roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn fodlon fod lefel y sŵn a ddeuai o Gerddoriaeth Wedi'i Recordio a Cherddoriaeth Fyw yn yr eiddo yn tanseilio'r amcan trwyddedu o ran niwsans cyhoeddus.

Roedd Deilydd y Drwydded Eiddo hefyd wedi cyfaddef bod problemau sŵn amlwg yn gysylltiedig â'r eiddo ac roedd yn barod i drafod mesurau lleihau sŵn ymhellach, a allai dawelu'r achwynwyr. Felly credai'r Is-bwyllgor Trwyddedu fod cwtogi'r oriau a ganiateir ar gyfer Cerddoriaeth Wedi'i Recordio a Cherddoriaeth Fyw ynghyd â

gosod amod i ymgymryd â mesurau lleihau sŵn o fewn amserlen dderbyniol, er mwyn diogelu amwynder preswylwyr yn y dyfodol, yn gymesur yn yr achos hwn.

Wrth ystyried yr amcan trwyddedu o ran atal trosedd ac anrhefn, ni wnaeth yr Is-bwyllgor Trwyddedu ganfod tystiolaeth gref yng nghyd-destun ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn gysylltiedig â’r eiddo’n uniongyrchol, ac nid oedd Heddlu Gogledd Cymru wedi codi pryderon am gyfrifoldebau'r eiddo o safbwynt hynny.

Wrth ddod i benderfyniad, gwnaeth yr Is-bwyllgor hefyd ystyried hawliau dynol pawb gan gynnwys y rhai â chysylltiad sy’n byw'n agos at yr eiddo, yn ogystal â chysylltiadau deilydd y drwydded o dan yr amgylchiadau, gan daro cydbwysedd teg, cymesur a rhesymol i bawb.

Rhoddwyd crynodeb i bawb o’r penderfyniad yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, a chyhoeddwyd penderfyniad â rhesymau llawn wedi hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.25pm.